Polisi Diogelu Plant

AWST 2018

This publication is available in English and in other formats on request.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg, ac mewn fformatau eraill ar gais.

Cynnwys:

1. **Datganiad Polisi'r Digwyddiad**
2. **Atal**

   Ethos, Diwylliant a Chynllunio
   Safonau Moeseg
   Gweithio'n Effeithiol mewn Partneriaeth gyda Rhieni
3. **Gweithdrefnau**

   Rôl yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant
4. **Adnabod: Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plant**
5. **Adrodd a Chofnodi Datgeliad neu Bryder am blentyn**
6. **Honiadau yn erbyn Staff**
7. **Diogelwch Safle'r Lleoliad**
8. **Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru**
9. **Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg**
10. **Monitro'r Polisi**

Polisi Diogelu Plant ar gyfer Eisteddfod y Cymoedd

1. DATGANIAD POLISI'R DIGWYDDIAD

1.1 Dan yr agenda Diogelu Plant, mae ein lleoliad yn cydnabod bod angen i Bolisi Diogelu gymryd trosolwg ehangach na'r Polisi Amddiffyn Plant traddodiadol. Mae canllaw Llywodraeth Cymru *Gweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004* wedi cael ei ymgorffori yn y ddogfen hon. Nod y ddogfen hon yw hybu diogelwch a lles pob plentyn mewn modd cyson. Trwy gydol y ddogfen hon, caiff plant eu cydnabod fel unrhyw un dan 18 mlwydd oed.

Mae gwybodaeth am Ddiogelu ar gael ar wefan Cyngor Caerffili www.caerphilly.gov.uk a gwefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru ar www.sewsc.org.uk.

Mae'n bwysig i'r holl staff, gwirfoddolwyr, contractwyr a phartneriaid amlasiantaethol ar y safle gofio'r canlynol:

NID cyfrifoldeb unrhyw weithiwr, gwirfoddolwr, contractwr na phartner asiantaethol yw pennu a yw cam-drin neu esgeulustod yn digwydd mewn gwirionedd.

Fodd bynnag, MAE'N gyfrifoldeb i unrhyw gyflogwr, gwirfoddolwr, contractwr neu bartneriaid amlasiantaethol l weithredu'n unol â'r camau yn y polisi hwn os ydynt yn pryderu bod cam-drin neu esgeulustod yn digwydd.

1.2 Mae Eisteddfod y Cymoedd yn cydnabod yn llawn y cyfraniad mae'n ei wneud i Ddiogelu Plant.

Prif elfen ein polisi yw:

- Gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac adrodd ar achosion, neu achosion tybiedig, o gam-drin.

1.3 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gwirfoddoli o fewn yr eisteddfod. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i'r holl weithwyr achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr ac aelodau'r pwyllgor rheoli sy'n ymwneud â'n lleoliad. Mae'n rhaid i'r holl oedolion ar safle'r lleoliad fod yn ymwybodol o Bolisi Diogelu Plant y digwyddiad gan ei bod yn bosibl i unrhyw oedolyn fod yn gyswllt cyntaf ar gyfer datgeliad gan blentyn.

2. ATAL

Ethos, Diwylliant a Chynllunio

2.1 Rydym yn cydnabod bod hunan-barch, hyder, ffrindiau cefnogol a dulliau cyfathrebu da gydag oedolyn y maent yn gallu ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu plant.

Byddwn felly yn:-

- Sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, a'u bod yn cael eu clywed;
- Sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn y lleoliad y gallant fynd atyn nhw os maen nhw'n poeni neu mewn trafferth;
- Ymarfer ein dyletswydd fel digwyddiad i ganfod plant sy'n agored i niwed a chadw plant yn ddiogel rhag peryglon radicaliaeth a phob math o eithafiaeth.

Safonau Moesegol

2.2 Mae pob gwirfoddolwr yn glir o ran pwysigrwydd eu rôl a'u cyfrifoldebau yng nghyd-destun modelu ymddygiad priodol a sicrhau bod plant yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Mae pob oedolyn yn ein digwyddiad, gan gynnwys Swyddogion/Aeloddau o'r Pwyllgor Gwaith / Gwirfoddolwyr sy'n cefnogi'r digwyddiad, ac mae'n rhaid bod yn glir na ddylai ymddygiad proffesiynol a phersonol effeithio'n negyddol ar y plant, y digwyddiad na'r gymuned ehangach mewn unrhyw fodd. Rhoddir arweiniad o ran safonau moesegol yn **Atodiad 1.**

Gweithio'n Effeithiol mewn Partneriaeth gyda Rhieni

2.3 Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau a'r NSPCC yn argymell na ddylai unrhyw un dan 16 mlwydd oed gael eu gadael i ofalu am blentyn iau. Er nad oes lleiafswm oedran yn gyfreithiol, bydd ein lleoliad yn gweithredu canllawiau awgrymedig a pheidio â rhyddhau plant iau sydd angen eu casglu i unrhyw un dan 16 mlwydd oed. Yr unig eithriad i hyn fyddai mewn sefyllfa lle bo'r rhiant dan 16 mlwydd oed.

3. GWEITHDREFNAU

3.1 Cyfrifoldeb pob oedolyn sy'n gofalu am blant yw eu hamddiffyn rhag niwed. Yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, mae'r ddarpariaeth gofrestredig yma'n gweithredu'r polisi Diogelu hwn.

Disgwylir i staff a/neu rieni yr ysgolion sy'n ymweld â'r Eisteddfod i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r plant/disgyblion ar bob achlysur.

Yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant

3.2 Disgwylir i bob ysgol/adran ddilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan eu hysgol/adran nhw a phob protocol lleol mewn perthynas â diogelu sydd wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru a chyfeirio unrhyw achos at eu Uwch Berson Dynodedig (UBD) ar gyfer Amddiffyn Plant, sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol, yn ogystal â Dirprwy Berson Dynodedig yn absenoldeb UBD gan gofio cynnwys Pwyllgor yr Eisteddfod mewn unrhyw ohebiaeth.

3.3 Mae'r digwyddiad yn gyfrifol am sicrhau fod pob gwirfoddolwr a phob aelod o'r pwyllgor rheoli'n gwybod:

- Bod ganddynt gyfrifoldeb unigol i atgyfeirio pryderon amddiffyn plant yn unol â'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

- Sut i weithredu ar y pryderon hynny drwy gyfeirio unrhyw achos at UBD yr ysgol benodol
- Bod pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn parhau i fod yn agored i niwed a bydd angen lefel gyson o gefnogaeth, gofal a monitro er nad ydynt o bosibl yn byw mewn amgylchiadau amhriodol.

4. ADNABOD: DIFFINIADAU O GAM-DRIN AC ESGEULUSO PLANT

4.1 Mae pob gwirfoddolwr yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus o arwyddion o gam-drin a gwybod sut i ymateb i blentyn a allai ddatgelu cam-driniaeth. Mae diffiniadau o gam-drin yn unol â'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan i'w gweld yn **(Atodiad 3).**

5. DEFNYDDIO'R WE A THECHNOLEG DDIGIDOL YN DDIOGEL

5.1 Mae'r digwyddiad yn cydnabod bod defnyddio'r we, dyfeisiau amlgyfrwng a chyfleusterau delweddu digidol yn rhan o ofynion cofnodi a hysbysebu yn yr Eisteddfod. Fodd bynnag, bydd diogelwch plant yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r lleoliad.

Nodir bod Pwyllgor yr Eisteddfod yn contractio ffotograffydd proffesiynol ar gyfer diben hyrwyddo Gwaith a llwyddiannau'r Eisteddod. Hysbysir rhieni am hyn drwy gyhoeddiadau o'r llwyfan yn ystod yr eisteddfod. Rhoddir nodyn yn y rhaglen a phosteri ar waliau'r Neuadd yn nodi hyn yn ogystal â nodyn ar wefan swyddogol yr Eisteddfod.

5.2 Disgwylir i rieni barchu'r cyhoeddiad fod hawl ganddynt i dynnu lluniau eu plant eu hunain ond nad oes hawl i ddangos lluniau o blant eraill ar wefannau cyhoeddus eraill.

5.3 Bydd cyhoeddiadau cyson o'r llwyfan hefyd yn nodi fod lluniau o grwpiau neu unigolion (heb nodi eu henwau llawn) yn cael eu cyhoeddi drwy Twitter yn ystod yr Eisteddfod. Cyfrifoldeb rhieni'r plant yw nodi i aelod o'r Pwyllgor os nad ydynt yn dymuno i luniau plentyn i ymddangos ar gyfryngau cymdeithasol/gwefan yr eisteddfod.

5.4 Os bydd aelod staff yn dod ag unrhyw eitem TG (gan gynnwys ffonau symudol) sy'n eiddo iddyn nhw i safle'r Lleoliad, cyfrifoldeb yr aelod staff yw sicrhau nad yw'r eitemau hyn yn cynnwys unrhyw beth o natur amhriodol. Pe byddai eitemau personol yn cael eu colli neu eu dwyn, mae cynnwys yr eitem yn dal i fod yn gyfrifoldeb i'r aelod staff a ddaeth â'r eitem i safle'r Digwyddiad.

5.5 Bydd gwirfoddolowyr yn sicrhau nad yw unrhyw ddefnydd personol o safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn amharu mewn unrhyw ffordd ar y Digwyddiad neu eu safonau proffesiynol. Dylid dod ag unrhyw bryderon yn ymwneud ag ymddygiad gwirfoddolwr at sylw aelod o bwyllgor yr Eisteddfod ar unwaith.

5.6 Os bydd unrhyw riant/gofalwr yn dymuno addasu/tynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, mae angen iddyn nhw ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i Arweinydd y Digwyddiad.

5.7 Mae'r Lleoliad yn cadw'r hawl i wrthod yr hawl i greu recordiad digidol o unrhyw ddigwyddiadau'r Lleoliad os ydynt yn pryderu y byddai diogelwch y delweddau'n cael eu peryglu trwy gael eu postio ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol neu ar y we. Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr nad ydynt yn parchu polisi'r Digwyddiad mewn perthynas â diogelu'n cael eu hatal rhag mynychu digwyddiadau yn y dyfodol.

6. HONIADAU YN ERBYN STAFF GWIRFODDOL NEU AELODAU'R PWYLLGOR

6.1 Bydd Arweinydd y Digwyddiad yn sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad mewn perthynas â'r gweithdrefnau gofynnol pan fo honiad yn cael ei wneud yn erbyn gweithiwr proffesiynol. Mae'r dogfennau canlynol yn cynnig deddfwriaeth ac arweiniad ar gyfer y mater hwn:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015
- Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 - Adran 4.
- Safonau Isafswm Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoledig i blant dan 12 oed, 2016

6.2 Bydd unrhyw honiad o natur diogelu yn erbyn person proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol, yn cael ei drafod tu allan i'r Lleoliad gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol am gyngor gwrthrychol a chydymffurfiaeth â gweithdrefnau. Hyd yn oed pan fo honiadau'n cael eu gwneud yn erbyn aelod staff neu wirfoddolwr, gellir holi am gyngor gan y Swyddog Cydymffurfiaeth Diogelu Blynyddoedd Cynnar, Beverley Davies 01443 866736 er mwyn cytuno ar y camau nesaf. Os nad yw'r Swyddog Cydymffurfiaeth Diogelu Blynyddoedd Cynnar ar gael, gellir holi am gyngor gan Reolwr Tîm Cyngor a Chynorthwyo, Gwasanaethau Plant, 0808 100 1727. Mae'n rhaid i unrhyw honiadau, boed yn ymwneud â diogelu ai peidio, gael eu hadrodd i Unigolyn Cyfrifol y Digwyddiad.

6.3 Pan fo tystiolaeth o bryder amlwg yn ymwneud ag ymddygiad aelod staff neu wirfoddolwr arall sy'n ymweld â'r Lleoliad mewn perthynas â lles neu ddiogelwch plentyn, mae'n rhaid cyfeirio'r mater at Wasanaethau Plant ar unwaith ac mae'n rhaid hysbysu'r Person Cyfrifol ar unwaith. Yn yr achos hwn, bydd ffurflen MARF yn cael ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Gwasanaethau Plant.

6.4 Mae'n rhaid i bob gwirfoddolwr sicrhau bod unrhyw honiad yn ymwneud ag oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwirfoddolwyr, aelodau'r pwyllgor rheoli neu gontractwyr a'r staff hynny nad ydynt ar safle'r lleoliad ond yn cael cyswllt gyda phlant h.y. y rhai sy'n cludo plant i ac o'r lleoliad ayb. yn cael ei adrodd ar unwaith i Arweinydd y Digwyddiad. Os bydd honiad yn cael ei wneud yn erbyn Arweinydd y Digwyddiad, dylid hysbysu'r Pwyllgor Rheoli, IAA ac AGC. Os bydd unrhyw un yn ansicr at bwy y gallant adrodd pryderon, gallant gysylltu â Thîm Diogelu'r Awdurdod Lleol, 01443 866736 neu linell gymorth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol 0808 100 1727. Mae siart llif yn dangos cyfrifoldebau adrodd ar gael yn **(Atodiad 4).**

6.5 Bydd pob honiad yn cael ei drafod yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a bydd gofynion adrodd i Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn cael eu dilyn.

6.6 Mae ein bwrdd/strwythur cyfreithiol e.e. pwyllgor rheoli/ymddiriedolwyr/perchennog yn gyfrifol am ymdrin â materion disgyblu staff. Gellir ymdrin â materion o gamymddygiad llai gydag Arweinydd y Lleoliad.

7. DIOGELWCH SAFLE'R LLEOLIAD

7.1 Mae mynediad i'r safle'n cael ei fonitro a'i adolygu'n llym gan Arweinydd y Lleoliad. Mae polisi Iechyd a Diogelwch y lleoliad ar gael i'w adolygu ar gais gan Arweinydd y Lleoliad.

7.2 Mae UBD pob ysgol/adran yn cadw cyfrifoldeb dros ddiogelwch a lles y plant bob amser. Bydd cyswllt ymwelwyr gyda'r plant yn cael ei fonitro a'i asesu gan UBD yr ysgolion/adrannau fel bo'n briodol.

8. BWRDD DIOGELU PLANT DE DDWYRAIN CYMRU (SEWSCB)

8.1 Mae Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru yn darparu hyfforddiant, cyngor ac arweiniad parhaus ar bob mater yn ymwneud â Diogelu plant. Mae ein digwyddiad yn croesawu gweithio mewn partneriaeth sy'n hybu iechyd a lles ein plant ac yn ystyried gwybodaeth Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru yn werthfawr iawn i'n lleoliad a datblygu staff.

8.2 Mae gwaith ymchwil ac adolygiadau achosion wedi pwysleisio'n gyson yr angen am gyfathrebu da rhwng asiantaethau, her broffesiynol adeiladol a datrys unrhyw wahaniaeth barn broffesiynol. Mae ein lleoliad yn parhau i fod wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn a gweithredol i gyfrannu at gynlluniau amlasiantaethol plant. Byddwn yn herio cydweithwyr gan ddefnyddio adnoddau priodol e.e. Datrys Anghydfod Proffesiynol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant.

8.3 Mae ein digwyddiad wedi ymrwymo'n llwyr i amddiffyn a datblygu ein holl blant ac yn ystyried gwybodaeth SEWSCB yn adnodd hanfodol er mwyn ymdrin â'r agenda yma. Mae'r holl staff yn ymwybodol bod gwybodaeth lawn ynglŷn â themâu amrywiol ar Wefan SEWSCB - www.sewsc.org.uk

9. CYDRADDOLDEB A'R IAITH GYMRAEG

9.1 Mae'r lleoliad hwn wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn manteisio cymaint â phosibl ar ei ddatblygiad a'i addysg, beth bynnag fo'i darddiad ethnig, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd (materion trawsryweddol), cred grefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o'r Iaith Gymraeg, Iaith y Byddar neu ieithoedd eraill, cenedl, cyfrifoldeb dros unrhyw un sy'n ddibynnol neu unrhyw reswm arall nad oes modd dangos cyfiawnhad yn ei gylch.

9.2 Byddwn hefyd yn sicrhau, yn unol â deddfwriaeth Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb bod pob parti sy'n cymryd rhan mewn unrhyw faterion Diogelu yn derbyn parch tuag at ddefnydd iaith a nodweddion unigol a'u bod yn cael ystyriaeth ar bob cam.

10. MONITRO'R POLISI

10.1 Gofynnir i'r holl staff ddarparu llofnod i nodi eu bod wedi darllen a deall y polisi hwn.

Mabwysiadwyd y Polisi gan **Eisteddfod y Cymoedd** Unigolyn Cyfrifol

Gweithredwyd y Polisi gan **xxxxxxxxxx** Arweinydd y Digwyddiad

Dyddiad Gweithredu 30/08/2018

Dyddiad Adolygu…….

Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu'n chwe-misol ac yn cael ei ddiweddaru'n unol ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth.

Atodiadau

Atodiad 1	**Dogfen Safonau Moesegol**
Atodiad 3	**Detholiad allan o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan** **Diffiniadau o Gam-drin Plant ac Esgeulustod, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Domestig**
Atodiad 4	**Adrodd a Chofnodi Datgeliad neu Bryder am Blentyn**

SAFONAU MOESEGOL AC YSTYRIAETHAU DIOGELWCH AR GYFER GWEITHWYR PROFFESIYNOL YM MAES ADDYSG

Dylai staff y sector Blynyddoedd Cynnar fod yn enwedig o ofalus o sut mae eu gweithredoedd yn cael eu gweld gan eraill wrth ymdrin â phlant (person dan 18 mlwydd oed). Mae tipyn o gyhoeddusrwydd wedi bod ynglŷn â'r defnydd o offer aml-gyfrwng o fewn lleoliadau gofal plant. Mae pryderon sylweddol wedi codi ym maes Amddiffyn Plant o'r hyn a fyddai wedi cael ei ystyried yn 'arferol' yn y gorffennol, tynnu lluniau mewn cyngherddau neu weithgareddau chwaraeon ayb. Yn ogystal, mae bywyd personol gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant bellach yn cael sylw cynyddol.

Mae arweiniad lleol wedi cael ei gytuno yng Nghaerffili gyda'r Gwasanaethau Plant is sicrhau trosolwg gwrthrychol cadarn mewn achos o honiadau yn erbyn gweithiwr proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol. Mae'n rhaid adrodd ar unrhyw honiadau o natur diogelu a wneir yn erbyn aelodau staff, gwirfoddolwyr neu bobl mewn swyddi cyfrifol i gael eu hystyried tu allan i'r lleoliad. Gellir naill ai anfon adroddiadau'n uniongyrchol at y Gwasanaethau Plant lle bo pryder amlwg am les neu ddiogelwch plentyn, neu gynnal trafodaethau gyda'r Rheolwr Diogelu Addysg. Hyd yn oed pan fo honiadau'n cael eu gwneud yn erbyn aelod staff, gwirfoddolwr neu berson mewn swydd gyfrifol sydd yn amlwg ddim yn faterion diogelu, gellir holi am gyngor gan y Rheolwr Diogelu Addysg neu Swyddog Cydymffurfio Diogelu Blynyddoedd Cynnar er mwyn cytuno ar y camau nesaf. Os nad yw'r Rheolwr Diogelu Addysg / Swyddog Cydymffurfiaeth Diogelu Blynyddoedd Cynnar ar gael, gellir holi am gyngor gan Reolwr Tîm Cyngor a Chynorthwyo, Gwasanaethau Plant.

Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, mae'r Tîm Diogelu Addysg yn glir o ran y cyngor canlynol i staff Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant.

1. **Peidiwch â rhannu eich manylion cyswllt personol gyda rhieni/plant**. Gallai hyn roi'r argraff i rieni eich bod yn ffrindiau, a bydd hyn yn cymylu'r ffiniau proffesiynol angenrheidiol rhwng teuluoedd a staff. Peidiwch â gwneud ffrindiau gyda phlant neu gyn-blant ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol gan y byddai hynny'n rhoi mynediad iddynt at wybodaeth bersonol. Os oes angen ffôn symudol ar gyfer teithiau'r lleoliad ayb, dylai'r lleoliad ddarparu un. Bydd ffiniau proffesiynol clir yn amddiffyn teuluoedd a staff.

2. **Peidiwch â dod ag eitemau electronig i eiddo'r lleoliad os ydynt yn cynnwys gwybodaeth neu luniau anaddas.** Cafwyd nifer o achosion lle mae staff wedi methu â diffodd eu cyswllt Bluetooth o fewn y lleoliad. Mae rhieni wedyn wedi cysylltu â ffonau staff ac wedi gweld/anfon deunydd anaddas neu hyd yn oed wedi cael mynediad at wybodaeth bersonol am yr aelod staff. Cofiwch fod gan nifer o liniaduron gyswllt Bluetooth ac felly mae'n bosibl i rieni 'chwilio' a chael mynediad at offer o'r fath - Mae gan yr awdurdod ganllawiau clir ynglŷn â defnyddio Bluetooth ar ei offer / neu addasu i hwyluso technoleg o'r fath. Mae staff yn y gorffennol wedi colli ffonau symudol/camerâu/tabledi neu maen nhw wedi cael eu dwyn. Yn y sefyllfa hon, mae'r ddyfais yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r aelod staff, a phe byddai'n cynnwys unrhyw luniau anweddus ac iaith neu sylwadau anaddas, gallai hynny fod yn fater disgyblu.

3. **Peidiwch â thynnu lluniau o blant heb ganiatâd pendant gan eu rhiant/gofalwr.** Mae technoleg amlgyfrwng yn datblygu'n sydyn; mae fideo a ffotograffiaeth yn rhan annatod o addysg fodern. Dylid amlinellu pwrpas, defnydd/dosbarthiad arfaethedig a dull storio unrhyw ddelweddau a wneir o blant yn glir i'r rhai sy'n cymryd rhan a rhieni/gofalwyr cyn eu creu. Gallai storio delweddau amlgyfrwng o blant heb ddogfennau cynllun a chaniatâd achosi anawsterau

sylweddol i chi a'r lleoliad, pe byddai cwyn. Bydd hyn yn cynnwys deunyddiau sy'n cael eu creu fel gweithgareddau dysgu a/neu dendro am gytundeb.

4. **Peidiwch â chael eich temtio i edrych ar neu ail-greu delweddau electronig, fodd bynnag, tu hwnt i'r angen i gael 'achos rhesymol i gredu' bod plentyn mewn perygl neu'n dioddef niwed sylweddol.** Pe byddech yn darganfod delweddau o natur amhriodol neu rywiol, neu fod bodolaeth delweddau o'r fath yn cael eu dwyn i'ch sylw, peidiwch byth ag edrych arnynt, eu copïo na'u hargraffu. Gallech fod yn troseddu trwy wneud hynny. Dylid cadw'r eitem cyfryngau'n ddiogel a chael cyngor naill ai gan Dîm Diogelu Addysg Awdurdod Caerffili neu Dîm IAA y Gwasanaethau Cymdeithasol.

5. **Byddwch yn ymwybodol o'ch ymddygiad ar y we gan gynnwys safleoedd cyfryngau cymdeithasol.** Mae gan bob person/gweithiwr proffesiynol mewn swydd gyfrifol hawl i fywyd teuluol preifat. Fodd bynnag, trwy roi manylion am eich bywyd ar y we, rydych chi'n eu gwneud yn gyhoeddus. Mae gosodiadau diogelwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn annibynadwy, a phe byddant yn methu, nid oes modd i chi alw unrhyw wybodaeth sydd wedi cyrraedd y cyhoedd yn ei ôl. Os byddwch yn derbyn rhieni/plant neu gyn rieni/plant, sy'n dal i fod yn gysylltiedig â'r lleoliad, ar eich tudalen gymdeithasol, bydd ganddynt fynediad at eich manylion cyswllt personol a'ch amgylchedd cymdeithasol. Gallai hyn gymylu'r ffin o ran perthynas rhiant/plentyn/staff. Yn ogystal, mae'n bosibl na fyddai eich ymddygiad mewn sefyllfa gymdeithasol yn eich portreadu yn y ffordd y byddai'r lleoliad yn dymuno i'w staff gael eu hystyried gan rieni/plant.

6 **Cyswllt corfforol gyda phlant.** Er y cydnabyddir ym maes Blynyddoedd Cynnar bod cyswllt corfforol gyda phlant yn digwydd, mae'n rhaid i staff gymryd gofal priodol pan fo cyswllt/cyffyrddiad corfforol yn digwydd. Mae yna rai plant lle na fyddai cyffwrdd yn briodol, megis y rhai hynny sydd wedi cael eu cam-drin (neu gamdriniaeth sydd heb ei ddatgelu hyd yma). Nid bwriad polisi'r lleoliad yw awgrymu na ddylai staff gyffwrdd â phlant bellach, ond y dylai cyswllt corfforol ddigwydd mewn ardaloedd agored anghysgodol o'r lleoliad yn unig. Mae'n annoeth i staff gael cyswllt corfforol gyda phlant pan fyddan nhw ar eu pen eu hun. Mae cusan ar y boch neu ar y pen yn aml yn cael ei ystyried yn ymateb fel rhiant, ac yn bendant, NID YW'N briodol gan aelod staff tuag at blentyn.

7 **Peidiwch â rhoi arian nag anrhegion i blant oni bai eu bod wedi'u cytuno, wedi'u cofnodi ac wedi cael eu rhoi gan y lleoliad.** Os bydd staff yn bwriadu rhoi gwobr/anrheg i blentyn er mwyn cydnabod llwyddiant, dylid cytuno ar hyn gydag Arweiniad y Lleoliad a chofnodi'n glir yng nghofnodion y lleoliad fel ymateb priodol i gyrhaeddiad y plentyn. Dylai unrhyw gefnogaeth, anrheg neu wobr fod yr un mor gyraeddadwy i bob plentyn ar sail haeddiant ac angen.

8 **Os bydd unrhyw weithiwr proffesiynol yn destun i ymchwiliad yr Heddlu o unrhyw fath, mae'n rhaid adrodd ar hyn i Arweinydd y Lleoliad ar unwaith.** Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymchwiliad, beth bynnag fo'r math o drosedd. Mae hyn er mwyn i'r lleoliad allu cynnal asesiad risg ar unwaith fel yr amlinellir uchod.

9 **Mae diogelu plant yn fater i'r lleoliad cyfan. Dylai pob aelod staff fod yn effro i arwyddion o gam-drin a gwybod at bwy y dylent adrodd unrhyw bryderon neu amheuon.** Fel gweithiwr proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol sy'n gweithio gyda phlant, mae gennych ddyletswydd glir i adrodd ar unrhyw bryderon sydd gennych yn ymwneud â phlentyn. Bydd methu â gwneud hynny'n arwain at straen a dioddefaint pellach ar ran y plentyn, ond gallai hefyd arwain at gamau disgyblu ar gyfer yr aelod staff dan sylw. Os bydd plentyn yn adrodd pryder am berson proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol, mae'n rhaid i chi barhau i fod yn wrthrychol, gwrando ac yna adrodd y ffeithiau ar unwaith i Arweinydd y Lleoliad (argymhelliad CLYWCH). Nid eich rôl chi yw barnu'r plentyn, y gweithiwr proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol neu ansawdd a dilysrwydd y wybodaeth. Mae dyletswydd arnoch i adrodd ar wybodaeth o'r fath mewn modd

ffeithiol ac amserol. Mae cefnogaeth ar gael i staff sy'n cael eu gadael yn teimlo dan straen mewn unrhyw ffordd yn dilyn achos neu ddatgeliad Amddiffyn Plant. Mae arweiniad penodol ar gael ynglŷn ag arddull adrodd gan Dîm Diogelu Addysg Awdurdod Caerffili.

Mewn sefyllfaoedd pan fo'r canllawiau yma'n arwain staff i adrodd pryderon i'w Harweinydd Lleoliad, dylid gwneud yr adroddiadau hyn i'r Pwyllgor Rheoli a'r IAA os bydd y pryderon yn ymwneud â'r Arweinydd Lleoliad ei hun. Gellir hefyd holi am arweiniad gan Dîm Diogelu Addysg Awdurdod Caerffili.

Cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau eu bod yn deall Polisi Diogelu'r lleoliad ac yn ymgyfarwyddo eu hunain gyda'r Uwch Berson Dynodedig ar gyfer trefniadau amddiffyn plant. Mae cyfrifoldeb ar y lleoliad i sicrhau bod Amddiffyn Plant yn rhan ganolog o unrhyw anwythiad a bod diweddariadau rheolaidd ar gael i bob aelod staff. Mae'r Lleoliad hwn yn gofyn i staff diweddaru hyfforddiant amddiffyn plant bob tair blynedd, gyda'r Uwch Berson Dynodedig a'r Dirprwy yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol bob dwy flynedd o leiaf. Dylai unigolion hefyd adrodd unrhyw bryderon nad yw unrhyw berson proffesiynol yn cydymffurfio gyda'r safonau yma, naill ai i Arweinydd y Lleoliad neu trwy bolisi Chwythu'r Chwiban y Lleoliad neu'r Cyngor.

Bwriad y cyngor a restrir yw gwella diogelu plant yn ogystal ag amddiffyn staff. Bydd amlinelliad clir o ddisgwyliadau safon ymddygiad yn darparu arweiniad i staff ac yn cynorthwyo i sicrhau bod risgiau'n cael eu cadw'n isel. Fel gweithiwr proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol, rydych yn gwybod nad yw mwyafrif y sefyllfaoedd yn cyd-fynd yn union â'r 'canllawiau' ac mae'n rhaid defnyddio barn broffesiynol. Os nad oes modd osgoi'r angen i gymryd camau nad ydynt yn cael eu hargymell yn y daflen gynghori, sicrhewch eich bod yn dogfennu eich gweithredoedd gyda rhesymeg am eich penderfyniad, a rhannu'r wybodaeth gyda'r Person Dynodedig ar gyfer Diogelu neu'r Pennaeth/ Arweinydd y Lleoliad cyn gynted â phosibl. Mewn unrhyw achosion pan fo Pennaeth/Arweinydd Lleoliad mewn amgylchiadau fel y rhestrir uchod, dylent adrodd eu pryderon i'w Pwyllgor Rheoli a holi am gyngor gan Dîm Diogelu Addysg Awdurdod Caerffili.

Mae Amddiffyn Plant yn **DDYLETSWYDD** nid yn ddewis.

Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau dros e-bost at educationsafeguarding@caerphilly.gov.uk

Atodiad 3

Detholiad allan o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plant

Mae plentyn yn cael ei gam-drin neu esgeuluso pan fo rhywun yn achosi niwed, neu'n peidio â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn sefyllfa deuluol, sefydliadol neu yn y gymuned, gan rai sy'n adnabyddus iddyn nhw, neu'n llai tebygol, gan ddieithryn. Gall plentyn hyd at 18 mlwydd oed ddioddef cam-drin neu esgeulustod a bod angen ei amddiffyn trwy gyfrwng cynllun amddiffyn plant amlasiantaethol.

Cam-drin corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol arall i blentyn. Gellir achosi niwed corfforol hefyd pan fo rhieni/gofalwyr yn dweud celwydd neu'n achosi salwch mewn plentyn dan eu gofal.

Gall salwch wedi'i ffugio neu ei achosi gan eraill olygu gorliwio salwch a symptomau gwirioneddol, ffugio symptomau, er enghraifft diffyg anadlu wrth gysgu, trawiadau, asthma neu alergedd. Gallai arwyddion posibl eraill gynnwys;

- Ffugio arwyddion, profion a chofnodion, er enghraifft ychwanegu gwaed neu siwgr i wrin, cofnodion tymheredd ffug;
- Achosi salwch corfforol, er enghraifft gwenwyno, mygu, llwgu neu ddiet amhriodol;
- Plentyn neu faban yn marw'n sydyn neu heb esboniad;
- Honiadau ffug o gam-drin;
- Annog neu ofyn i blentyn ymddangos yn anabl, gan gynnwys anabledd dysgu a/neu sicrhau triniaethau neu offer arbenigol diangen.

Cam-drin emosiynol

Cam-drin emosiynol yw trin plentyn yn wael yn barhaus, fel ei fod yn achosi effaith negyddol parhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gallai olygu gwneud i blentyn deimlo ei fod yn ddi-werth neu nad oes neb yn ei garu, eu bod yn anghymwys neu'n cael ei werthfawrogi cyn belled â'i fod yn bodloni gofynion person arall yn unig. Gallai gynnwys gosod disgwyliadau anaddas ar gyfer oedran neu ddatblygiad ar blant. Gallai olygu achosi plant i fod ofn neu mewn perygl yn rheolaidd, er enghraifft trwy dystio cam-drin domestig yn y cartref, neu gael eu bwlio, neu gam-fanteisio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn rhan o bob math o drin plentyn yn wael, er mae'n bosibl ei fod yn digwydd ar ei ben ei hun.

Cam-drin Rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, boed y plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.

Gallai'r gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddgar neu anrheiddgar. Gallant gynnwys gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant yn y weithred o edrych ar neu gynhyrchu, deunyddiau pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol rhywiol.

Esgeulustod

Mae esgeulustod yn fethiant parhaus i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gallai olygu rhieni/gofalwyr yn methu â darparu bwyd, lloches a dillad digonol, methu ag amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethu â sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol. Gallai hefyd gynnwys esgeulustod, neu ddiffyg ymateb i ofynion emosiynol sylfaenol plentyn.

Adnabod niwed sylweddol

Cyflwynodd Deddf Plant 1989 **gysyniad niwed sylweddol** fel trothwy sy'n cyfiawnhau ymyrraeth orfodol mewn bywyd teuluol er mwyn amddiffyn plant. Mae niwed sylweddol yn cael ei ddiffinio yn y weithdrefn fel triniaeth wael neu amhariad ar iechyd a datblygiad. Mae'n disgrifio effeithiau cam-drin rhywiol, corfforol, emosiynol neu esgeulustod neu gyfuniad o wahanol fathau Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol dan Ddeddf Plant 1989 adran 47 (1) (b) i wneud ymholiadau neu achosi i ymholiadau gael eu gwneud, pan fod ganddynt reswm rhesymol i amau bod plentyn sy'n gweithio, neu'n cael eu canfod yn eu hardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.

Nid oes unrhyw feini prawf pendant y dylid dibynnu arnynt wrth farnu beth sy'n cynrychioli niwed sylweddol. Gallai achos o gam-drin unigol a difrifol, megis achos o gam-drin rhywiol neu ymosodiad treisgar, fod yn achosi niwed sylweddol i blentyn. Fodd bynnag, gan amlaf, mae niwed sylweddol yn digwydd o ganlyniad i gyfuniad hirdymor o ddigwyddiadau, sy'n ymyrryd, newid neu'n niweidio datblygiad corfforol a seicolegol plentyn. Mae'r niwed sylweddol o ganlyniad i effaith deifiol cam-drin hirdymor yn debygol o gael effaith ddwys ar ddyfodol y plentyn.
Ar adeg yr atgyfeiriad, efallai nad yw'n glir a yw'r plentyn mewn angen neu'n dioddef niwed sylweddol. Dylai'r asesiad cychwynnol sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn derbyn gwybodaeth ddigonol i lunio barn ynglŷn â natur yr angen a/neu'r niwed a'r camau gweithredu angenrheidiol. Mae hyn yn gofyn am rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, asesiad a dadansoddiad strwythuredig, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i farn y plentyn ei hun am ei sefyllfa ef/hi ei hun yn ôl ei oedran a'i ddealltwriaeth ef/hi. **Mae asesiad da yn sylfaen hanfodol ar gyfer penderfynu beth yw'r pryderon ynglŷn â'r plentyn; beth sydd angen newid; a pha wasanaethau ac ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r newidiadau a gynllunnir.**

Er mwyn deall a phennu niwed sylweddol, mae angen ystyried:

- Y cyd-destun teuluol;
- Datblygiad y plentyn yng nghyd-destun eu teulu a'r amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol ehangach;

- Unrhyw anghenion arbennig, megis cyflwr meddygol, anhawster cyfathrebu neu anabledd a fyddai'n effeithio ar ddatblygiad y plentyn a gofal o fewn y teulu;
- Natur y niwed, o ran triniaeth wael neu fethu â darparu gofal digonol;
- Yr effaith ar iechyd a datblygiad y plentyn; a
- Digonoldeb gofal y rhieni.

Diffiniadau ychwanegol

Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yw gorfodi neu ddylanwadu ar blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol sy'n ymwneud â rhyw fath o daliad, a allai gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'gwarchodaeth' neu hoffter. Mae natur fregus y plant a'r broses o greu perthynas amhriodol a ddefnyddir gan y gweithredwyr yn eu gwneud i deimlo nad ydynt yn gallu i adnabod natur cam-fanteisio'r perthnasau ac yn methu â rhoi caniatâd deallus.

Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blentyn yn cynnwys:

- cam-drin trwy gyfnewid gweithgaredd rhywiol am ryw fath o daliad
- cam-drin trwy greu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall yn cynnwys plant, boed yn lluniau, ffilmiau neu dechnoleg arall
- cam-drin trwy feithrin perthynas amhriodol trwy gyswllt uniongyrchol neu ddefnyddio technoleg megis ffonau symudol a'r we
- cam-drin trwy fasnachu at ddibenion rhywiol

Nid yw plant yn gwirfoddoli i gael eu cam-fanteisio arnynt yn rhywiol ac ni allant roi caniatâd ar gyfer eu cam-drin eu hunain; maen nhw'n cael eu gorfodi a/neu eu perswadio.

Cam-drin Domestig

Mae cam-drin domestig yn cael ei ddiffinio o fewn Strategaeth Cymru Gyfan ar Gam-drin Domestig fel a ganlyn: 'Defnyddio camdriniaeth gorfforol a/neu emosiynol neu drais, gan gynnwys tanseilio hunan hyder, trais rhywiol neu fygwth trais, gan berson sydd neu sydd wedi bod mewn perthynas agos.

Gall trais yn y cartref fynd tu hwnt i drais corfforol gwirioneddol Gall hefyd gynnwys trais emosiynol, dinistrio eiddo priod neu bartner, eu harwahanu oddi wrth eu ffrindiau, teulu neu ffynonellau eraill o gymorth posibl, bygythiadau i eraill gan gynnwys plant, rheolaeth dros fynediad at arian, eiddo personol, bwyd, cludiant a'r ffôn a stelcio.

Gall hefyd gynnwys trais gan fab, merch neu unrhyw berson arall sydd â pherthynas agos neu waed gyda'r sawl sy'n dioddef/goroesi. Gall hefyd gynnwys trais yn erbyn, neu sy'n cael ei dystio gan blant. Mae'n rhaid cydnabod effaith eang byw gyda cham-drin domestig ar y plentyn fel mater amddiffyn plant. Gallai'r effeithiau fod yn gysylltiedig â diffyg cyflawniad addysgol, allgau cymdeithasol ac i drosedd pobl ifanc, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a digartrefedd o ganlyniad i

redeg i ffwrdd. Nid yw cam-drin domestig yn ddigwyddiad unigol; mae'n digwydd yn aml ac yn barhaus'.

Mae trothwy ymyraeth mewn achosion o gam-drin domestig yn parhau i fod yn her i bob asiantaeth ac mae'n bwysig bod trothwyon yn cael eu monitro'n barhaus mewn fforymau perthnasol.

Atodiad 4

Adrodd a Chofnodi Datgeliad neu Bryder am Blentyn

GWRANDO

Os ydych yn bryderus oherwydd rhywbeth mae'r plentyn yn e ddweud, ni ddylech geisio gweithredu'n uniongyrchol, ond **dylech:**

- Aros yn bwyllog
- Gwrando'n astud, peidiwch â'i holi ef/hi'n uniongyrchol, ond yn hytrach, defnyddiwch gwestiynau agored; beth, ble, pryd a phwy?
- Peidiwch byth â'u hatal rhag siarad os ydynt yn ailadrodd digwyddadau sylweddol
- Dywedwch wrthyn nhw beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf a phwy fyddwch chi'n eu hysbysu
- Peidiwch byth ag addo i gadw'r hyn a ddywedir wrthych yn gyfrinach
- Gwnewch nodiadau o'r drafodaeth, gan ofalu i gofnodi'r hyn sy'n cael ei ddweud, pryd a ble ddigwyddodd hyn a phwy arall oedd yn bresennol
- Dagnoswch eich bod yn wedi clywed beth maen nhw'n ei ddweud a'ch bod yn

RHANNU

Trafodaeth ynglŷn â datgeliad neu bryderon gyda'r person perthnasol o fewn y lleoliad gan ddibynnu yn erbyn pwy y cafodd yr honiad neu'r pryder ei wneud.

Os oes angen atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth pan fo perygl o niwed sylweddol i blentyn, dylai'r person perthnasol o fewn y lleoliad wneud hynny dros y ffôn ar 0808 100 1727.

Dylid gwneud atgyfeiriadau dros y ffôn cynt gynted â phosibl ac y bendant cyn ddiwedd y diwrnod gwaith.

COFNODI

Dylai'r aelod staff a welodd/a gofnododd y pryder gofnodi gwybodaeth fanwl ar y Ffurflen Gofnodi Digwyddiad Arwyddocaol Diogelu Addysg.

Camau Gweithredu Disgwyliedig wrth Ymdrin â Honiadau

Ni fydd y Person Dynodedig ar gyfer Diogelu yn trafod y pryder gyda'r cam-driniwr honedig, ond gall drafod gyda'r rhiant/gofalwr os yn briodol.

1. Honiadau o natur diogelu yn erbyn aelod o'r gymuned

- Gallai honiadau/ pryderon yn erbyn aelod o'r gymuned fod yn berthnasol i deulu, ffrindiau neu gymdogion y plentyn.
- Dylid trafod honiadad/pryderon o'r natur hwn gyda'r Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant.
- Bydd y Person Dynodedig ar gyfer Diogelu yn cysylltu gyda'r Swyddog Cydymffurfiaeth Diogelu Blynyddoedd Cynnar (EYSCO) neu IAA am gyngor os yw'n ansicr o'r camau nesaf.
    - Cydlynydd Diogelu Blynyddoedd Cynnar Beverley Davies 01443 866736
    - Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) y Gwasanaethau Cymdeithasol - 0808 100 1727

2. Honiadau o natur diogelu yn erbyn aelod staff

- Mae'n rhaid trafod unrhyw honiadau/pryderon o natur diogelu yn erbyn aelod staff, gwirfoddolwr neu unrhyw un mewn swydd gyfrifol o fewn y lleoliad gydag Arweinydd y Lleoliad.
- Peidiwch â diystyru eich pryderon, peidiwch â mynd at y person sy'n destun i'ch pryderon.
- Bydd Arweinydd y Lleoliad yn symud y pryder yn ei flaen gydag EYSCO a/neu'r IAA am gyngor.
- Bydd Arweinydd y Lleoliad yn hysbysu'r AGC

3. Byddai **honiadau yn erbyn Arweinydd y Lleoliad** fel arfer yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i'w rheolwr llinell, mewn achos Arweinydd Lleoliad, y Pwyllgor Rheoli fyddai hynny.

   Fodd bynnag, mewn lleoliadau gyda pherchennog ungiol, dylid cysylltu'n uniongyrchol gydag IAA.

   Os bydd staff yn teimlo'n anghyfforddus wrth adrodd i'r Pwyllgor Rheoli neu'n ansicr sut i gysylltu â'r Pwyllgor Rheoli, dylai aelodau staff adrodd pryderon i'r Tîm Diogelu Addysg yn y lle cyntaf ar 01443 866686 i holi am gyngor gan Beverley Davies, EYSCO neu Helen West, Rheolwr Diogelu. Wrth wneud cysllwt, dylai'r sawl sy'n galw egluro'n glir ei fod mewn perthynas â phryder ynglŷn ag Agweinydd Lleoliad.

   Os nad yw'n bosibl i gysylltu â'r arweinwyr Diogelu, dylid cysylltu â'r canlynol:

   - Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol - 0808 100 1727

Dylid blaenoriaethu unrhyw blant sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol mewn unrhyw honiad i dderbyn cefnogaeth a chymorth. Yn ogystal, mae'n rhaid cynnig cefnogaeth i'r person sy'n destun i'r honiad a'r person sy'n gwneud yr honiad. Bydd angen asesiad risg ysgrifenedig ar gyfer unrhyw berson mewn swydd gyfrifol sy'n destun honiad.

© PWYLLGOR RHEOLI EISTEDDFOD Y CYMOEDD 2018